

## Nodiadau i athrawon

Prosiect mewn partneriaeth dan arweiniad Cyngor Sir Gaerfyrddin a gefnogwyd gan Brifysgol Abertawe ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed ac a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri oedd prosiect 'Mawnogydd Sir Gaerfyrddin'. Nod y prosiect, a oedd yn gweithio ar bum tir comin ger Brechfa a Llanfynydd, ac a gefnogwyd hefyd â chyllid gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Gaerfyrddin, oedd archwilio hanes y mawnogydd, dathlu cynefinoedd a rhywogaethau arbennig y mawnogydd, a chymryd camau gweithredu i warchod y cynefinoedd pwysig hyn ar gyfer y dyfodol. Mae wedi cynnwys pobl a phlant ysgol lleol yn y broses o ddarganfod archeoleg a deall arwyddocâd y safle.

Mae'r prosiect hefyd wedi arwain at gynhyrchu'r adnodd addysgol hwn. Yn ystod y prosiect fe ymwelodd dwy ysgol gynradd leol ac ysgol uwchradd â'r safle difyr hwn gan gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau dosbarth a oedd yn gysylltiedig â'u hymweliad. Gobeithir y bydd yr adnodd addysgol hwn yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion i annog a galluogi plant ysgol i ddarganfod arwyddocâd hanesyddol a photensial addysgol eang y mawnogydd.

Mae'r adnoddau wedi cael eu datblygu gan athro cymwysedig i weithio gyda Chyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, gyda chymaint o gysylltiadau â'r cwricwlwm â phosibl. Fodd bynnag, efallai y bydd angen addasu rhai o'r adnoddau i weddu i anghenion a grŵp oedran eich dosbarth.

Cyn addysgu unrhyw unedau cynghorir eich bod yn ymweld ag un o'r mawnogydd i ymgyfarwyddo â'r safleoedd.

## Ymweliadau â'r safle.

Wedi'i chynnwys yn yr adnodd hwn mae taflen arweiniol ar fawnogydd Sir Gaerfyrddin sy'n cynnwys lleoliad y safleoedd ar gyfer ymweliadau gan ddsbarthiadau. Ceir rhagor o wybodaeth ar-lein yn <http://www.carmarthenshire.gov.wales/home/residents/your-community/biodiversity/hlf-bogs-project/#.V86dYvkrKUK>

Mae cyngor ynghylch asesu risgiau wedi'i gynnwys yn y pecyn hwn.

Diolch am roi o'ch amser i lawrlwytho'r adnoddau. Os bydd gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau cysylltwch â mi. E-bost [s.rees@dyfedarchaeology.org.uk](mailto:s.rees@dyfedarchaeology.org.uk)

